Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

ADRAN DIOGELWCH CYMUNEDOL

HYFFORDDWR CADETIAID TÂN
Cyflog: £12.32 yr awr

A oes gennych sgiliau proffesiynol y cewch rannu?

Gallwch chi wneud gwahaniaeth i fywyd person ifanc?

Os yw'r ateb i un o'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol, hoffwn siarad â chi ynglŷn â gweithio gyda'n Cadetiaid Tân.

Grŵp Gweithgaredd Ieuenctid sydd â thema Gwasanaeth Tân ac Achub yw'r cynllun Cadetiaid Tân a gynhelir ar gyfer pobl ifanc o oed 10 a 17. Prif ffocws y cynllun yw datblygu dinasyddiaeth ymysg pobl ifanc o ystod o gefndiroedd cymdeithasol. Bwriad rhaglen y Cadetiaid Tân yw ysbrydoli pobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Rydym yn chwilio am Hyfforddwyr Cadetiaid Tân sy'n chwilio am sialens newydd. Mae'r gallu i weithio gyda phobl ifanc a/neu bobl ag ymddygiad heriol yn fanteisiol ond nid yn hanfodol. Gwneir hyfforddiant ar gael i ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae angen pobl arnom sydd â sgiliau rhyngbersonol ardderchog sy'n gallu ymateb i anghenion amrywiol pobl ifanc.

Yn gyfredol, mae gennym swyddi gwag o fewn pob un o'n canghennau ar draws ardal De Cymru ac fel blaenoriaeth, mae angen Hyfforddwyr ar gyfer gorsafoedd Pen-y-bont ar Ogwr a'r Barri. Fel y cyfyd swyddi gwag ar hyd y flwyddyn, byddwn hefyd yn creu cronfa o Hyfforddwyr i ymgymryd â swyddi lle a phryd byddant yn codi.

Bydd y gronfa hon yn ddilys am 12 mis.

Mae 13 o Ganghennau Cadetiaid Tân ar draws De Cymru.

Mae cytundebau ar gael am 50 awr, 75 awr a 100 awr y flwyddyn. Gwasgerir yr oriau ar draws 20 wythnos, 30 wythnos neu 40 wythnos o'r flwyddyn (ar sail y cytundeb a ddyrennir) ar noson Ymarfer yr Ymladdwyr Tân Ifanc - (un noson bob wythnos o 18.30 tan 21.00) lleoliadau a restrwyd.

Mae'r wythnosau yn unol â thymhorau'r ysgol a bydd canghennau ar gau ar gyfer gwyliau ysgol.

Rhestrir lleoliadau'r canghennau a'r nosweithiau ymarfer isod:

- *Aberbargoed – Dydd Mawrth*
- *Y Fenni – Dydd Iau*
- *Y Barri – Dydd Mawrth*
- *Pen-y-bont ar Ogwr – Dydd Llun*
- *Porth Caerdydd – Dydd Mawrth*
- *Caerffili – Dydd Mawrth*
- *Cwmbrân – Dydd Mawrth*
- *Malpas – Dydd Llun*
- *Malpas Ieuengach – Dydd Iau*
- *Merthyr Tudful – Dydd Mawrth*
- *Y Rhath – Dydd Llun*
- *Tredegar – Dydd Mawrth*
- *Tonypandy – Dydd Iau*

Hyfforddwyr Gweithredol
Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb gan bersonél gweithredol cyfredol sy'n dymuno cymryd cytundeb eilaidd â'r tîm Cadetiaid Tân. Dynodwch bob cangen y dymunwch dderbyn ystyriaeth ar eu cyfer.

Hyfforddwyr Anweithredol (Staff Mewnol)
Gofynnir i staff mewnol GTADC gyflwyno ffurflen datganiad o ddiddordeb. Dynodwch bob cangen y dymunwch dderbyn ystyriaeth ar eu cyfer.

Staff Anweithredol (Ymgeiswyr Allanol)
Gofynnir i ymgeiswyr allanol gwblhau'r **ffurflen gais gefnogol** o'n gwefan, gan ddynodi'r holl ganghennau y dymunwch dderbyn ystyriaeth er eu cyfer.

Cadetiaid blaenorol
Derbynnir ceisiadau gan gadetiaid blaenorol, ond byddwch yn gweithio mewn uned wahanol i'r un y cewch eich postio iddi fel cadét tân (o leiaf 2 flynedd).

Noder: **Ni dderbynnir ffurflenni CV**

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn destun gwiriad clirio boddhaol gan **y Gwasanaeth** Datgelu a Gwahardd.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais neu ffurflen Datganiad o Ddiddordeb (fel bo'n briodol), manyleb person a swydd-ddisgrifiad o dudalen swyddi gwag cyfredol gwefan/mewnrwyd GTADC. Dylid dychwelyd ceisiadau /datganiadau o ddiddordeb gorffenedig at:

Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd **12:00 hanner dydd**, **dydd Gwener 31ain o Ionawr 2020.**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.